

CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mawrth 5, 2019 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Delwyn Evans – Maer
Y Cynghorydd Jo Checkley – Dirprwy Faer
Cynghorwyr Sion Edwards; John Raghoobar; John Cadwaladr; Bob Gunton; Linda Morgan; Heilyn Williams; Nia Williams; Branwen Rhys Dafydd.

Mr Rhys Williams – Clerc

C84.2018/2019 YMDDIHEURIADAU
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Dyfrig Siencyn a Ray Stubbs.

C85.2018/2019 DATGANIADAU O DDIDDORDEB PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

C86.2018/2019 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR CHWFROR 5, 2019

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod .

C87.2018/2019 MATERION YN CODI O'R COFNODION

- 1. C78.2018/2019.1 Coed Ffynnon Fair**
Cyflwynwyd: i) Dyfynbris o £50 ar gyfer cynhyrchu 2 x arwydd i'w osod yn y goedlan.
Penderfynwyd: Awdurdodi'r gwariant yma.
Cyflwynwyd: ii) Adborth ar y difrod pellach diweddar i'r goedlan yn dilyn tywydd garw. Yr arbenigwr coed, Mr D. Bradley, Swyddog Coed y Parc Cenedlaethol a'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Bob Gunton a Heilyn Williams wedi ymweld â'r goedlan.
Penderfynwyd: Cadarnhau gwariant pellach o £350, sef 1 x diwrnod gwaith ar y safle i'r arbenigwr coed, Mr D. Bradley, i sicrhau diogelwch yr ardal
- 2. C78.2018/2019.3 Sefydlu cyfyngiad cyflymdra o 20 m.y.a. ger safleoedd addysg ac ardaloedd eraill o'r dref**
Cyflwynwyd: Adborth y bod y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn dilyn i fyny ar y mater yma.
Penderfynwyd: Gwahodd y swyddog trafndiaeth briodol o Gyngor Gwynedd i ymgymryd â thaith oddi amgylch y dref ar y cyd gydag aelodau.
- 3. C78.2018/2019.4 Trafodaeth/ymweliad i Gyngor Tref Abermaw**
Cyflwynwyd: Adborth o'r Maer yn egluro ei fod yn aros am ymateb o Gyngor Abermaw ar hyn o bryd.
Penderfynwyd: I'r Clerc ddilyn i fyny ar y mater
- 4. C82.2018/2019.1 Pryder cyflymdra trafndiaeth - Llynpenmaen**
Cyflwynwyd: Adborth oddi wrth y Clerc yn egluro bod y mater wedi'i gyfeirio at sylw PCSO Gareth Jones ar hyn o bryd.
Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth

C88.2018/2019 SEFYLLFA A MATERION ARIANNOL
Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc a chadarnhawyd y taliadau canlynol

Dyddiad	Rhif Siec	Enw	Disgrifiad	Swm £
04.02.2019	103831	Partneriaeth Dolgellau- Parc y Dref	Cyfraniad	2,500.00
04.03.2019	103832	Rhys Williams	Cyflog Mawrth 2019 & ad daliad stampiau	362.08
18.03.2019	103833	David Bradley	Gwaith Coed Ffynnon Fair	350.00
18.03.2019	103834	Rhys Williams	Ad Daliad Tanysgrifiad Mcaffee	89.99
20.03.2019	103835	Wendy Owen	Cyfieithu Chwefror 2019	155.86
20.03.2019	103836	Linda Morgan	Ad Daliad Costau Blodau'r Gwanwyn	31.47
20.03.2019	103837	Coleg Meirion Dwyfor	Costau Blodau'r Gwanwyn	164.00

Penderfynwyd yn ogystal i:

- i) Ail benodi Uned Archwilio Cyngor Gwynedd i ymdrin ag archwiliad mewnol 2018/2019
- ii) Cyfrannu £500 pellach i Glwb Criced Dolgellau yn unol â'r penderfyniad a wnaed am hyn yn ystod 2017/2018
- iii) Sicrhau fod pob aelod yn datgan 'ie neu na' i'r taliad posib o £150 y flwyddyn ar gyfer costau
- iv) Awdurdodi gwariant pellach o £100 cyn diwedd Mawrth 2019 ar offer fflagiau – y Dirprwy Faer yn arwain ar hyn.
- v) Ymaelodi gydag Un Llais Cymru ar gyfer 2019/2020 am £477.

C89.2018/2019 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU

1. Adroddiadau Cyngorwyr Tref.

a) Y Maer

Cwynion mis Chwefror 2019

Fandaliaeth yn y dref - ffenestri wedi eu malu yn Eglwys Santes Fair; seti clwb pêl droed ar y Marian wedi ei fandaleiddio. Neis gweld CCTV newydd gan rhai busnesau (?) – a oes rhaid cael arwydd i ddangos eu bod yn gweithio? Heddlu yn dweud NA os mai camerâu preifat, ond OES os y Cyngor yn eu rhoi i fyny. Mae'r dref yn dal i edrych yn fudur - gŵm cnoi ym mhob stryd.

Cyfarfodydd mis Chwefror 2019

1/2/19 Cyfarfod Cyllid
4/2/19 Angladd cyn-gynghorydd, sef John Dyer James
5/2/19 Cyngor Tref
13/2/19 Coeden wedi syrthio yn Ffynnon Fair – ymchwiliad gyda Bob Gunton
18/2/19 Cyfarfod gyda Rhydian (Parc Eryri) a David Bradley (arbenigwr coed). Cytundeb i roi un diwrnod arall o waith i David Bradley ac i aros dros y Gwanwyn i weld faint o goed sydd yn deilio.
24/2/19 Eglwys Gatholig - Gwasanaeth Taize
25/2/19 Er gwybodaeth – "I CAN" – gwasanaeth cefnogi a gwrando yn dechrau yn yr adrannau brys Ysbyty Gwynedd rhwng 7 y.h. a 2 y.b. i helpu pobl hefo salwch meddwl.
Angladd yn Eglwys Santes Fair.

- b) **Y Cyngorydd Branwen Rhys Dafydd** - cynnig i'r Cyngor brynu baner/baneri i'r dref gan gynnwys geirfa briodol i egluro eu bod wedi'i noddi gan y Cyngor.

Penderfynwyd: Awdurdodi'r uchod i drefnu dyfynbris ar gyfer hyn.

- c) **Y Cyngorydd Bob Gunton** - gwaith diweddarau cynnwys y wefan yn mynd yn ei flaen. Manylion cofeb y dref hefyd bellach wedi ei uwchlwytho.

- ch) **Y Cynghorydd Heilyn Williams** - cyfarfod diweddar o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru.
- d) **Y Cynghorydd Sion Edwards** – problemau baw cŵn yn yr ardal yn parhau.

2. Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd Lleol

a) Y Cynghorydd Linda Morgan

7/2/19 Pwyllgor Craffu Cymunedau yng Nghaernarfon
 9/2/19 Clirio a pharatoi bocsys blodau Cyngor Tref x 8 yn barod i'r Coleg.

11/2/19 Cyfarfod gyda Jonathan Neale ac Alan Hughes ynglŷn â'r biniau newydd. Dwi'n hapus iawn gyda'r biniau newydd yn y dref. Gobeithio y byddant o gymorth gyda phroblemau baw cŵn o gwmpas y dref gan fod y biniau yn amlbwrpas a gellir gwaredu baw cŵn mewn bagiau ynddynt.

Fel rhan o ymgyrch i atal baw cŵn, mae'r swyddogion wedi gosod posteri dros dro i fyny. Maent hefyd wedi rhoi bagiau baw cŵn i mi osod allan o gwmpas y lle.

13/2/19 Cyfarfod gyda Delwyn a Nia ynglŷn ag Ysbyty Dolgellau

22/2/19 Gwirio bocsys yn barod i'r Coleg - Dylan Jones, Peter Felton staff o Goleg Meirion Dwyfor a 3 myfyriwr o gwrs "Pre-vocational", Chris Mason, Aaron Poxon a Kye Jones wedi dod a blodau i'r bocsys blodau ac wedi eu plannu. Hefyd wedi cael 3 basged hongian sydd wedi eu gosod yn Sgwâr Eldon. Diolch arbennig i myfyrwyr ILS a "Pre-vocational" i gyd am eu gwaith yn paratoi blodau gwanwyn ar gyfer eu plannu. Mae'n newyddion da fod y myfyrwyr yn cymryd rhan mor ymarferol ac yn cyfrannu tuag at wella'r gymuned a dod a gymaint o liw i'r dref. Dwi'n gobeithio bod eu hesiampl yn ysbrydoliaeth i bobl ifanc eraill a busnesau lleol i gymryd rhan a chymryd gofal am yr amgylchedd lleol yn enwedig canol y dref.

Unrhyw cynnig o help i mi a Nia i ddyfrio blodau'r Cyngor eleni.

Cynnig: Ysgrifennu i ddiolch i'r Coleg. Cytunwyd

24/2/19 Mynychu Gwasanaeth gyda Delwyn yn yr Eglwys Gatholig. Roedd cynrychiolaeth o bob Capel ac Eglwys yn bresennol. Cymryd rhan yng Ngwasanaeth Taize. Roedd yn wasanaeth ystyriol iawn wedi ei fwynhau gan bawb.

Delio gyda phryderon ynglŷn â phlant yn croesi tu allan i'r Ysgol Babanod. Wedi ymweld â'r safle a thynnu lluniau. Wedi gyrru e-bost ac am gadw llygaid ar y safle wythnos yma. Byddaf yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf.

Delio gyda phryderon am sbwriel ar y Stad Ddiwydiannol, adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf.

Delio gyda phroblemau ynglŷn â choed, adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf.

Mae cyfarfod o'r Cyngor yng Nghaernarfon dydd Iau.

Mae Diwrnod Agored ar 11/3/19 rhwng 10.00 a 4.00 ynglŷn â Thrafnidiaeth Gyhoeddus yn y Llyfrgell Rydd Arolwg Bws Gwynedd ar lein – safle we Gwynedd.

Newyddion Da y bydd Gwesty'r George yn agor yn fuan.

Delio gyda thyllau yn y lon tu allan i Goleg Meirion Dwyfor

Delio gyda chwynion am faw cŵn.

3. Sesiwn Cwestiynau (C) ac Atebion (A)

- C. Gofynnwyd a fyddai'n bosib i Barc y dref dderbyn rhywfaint o'r hen finiau sbwriel y mae Cyngor Gwynedd yn adnewyddu ar y funud?
A. Cytunodd y Cyngorydd Linda Morgan i ddilyn i fyny ar y mater.

C90.2018/2019 GOHEBIAETH

Derbyniwyd y canlynol:

1. **Mr Peter a Sue Barnes** - llythyr o siom ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor i beidio cyfrannu tuag at brosiect 'Strydoedd Arbennig' y dref.
Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.
2. **Gefeilldref Guerande** - gwahoddiad i gynrychiolaeth fynychu'r Wyl Ganoloesol ar Fehefin 1-2, 2019.
Penderfynwyd: Trafod a dod i benderfyniad yng nghyfarfod mis Ebrill 2019 y Cyngor.
3. **Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - cais am gyfraniad ariannol.**
Penderfynwyd: Trafod y cais yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/2020.
4. **Cyngor Gwynedd – cyfyngiad parcio arfaethedig – Llys Owain, Dolgellau.**
Penderfynwyd: Trafod y mater pan ddaw cynllun / cynnig mwy diweddar i law.

C91.2018/2019 MATERION CYNLLUNIO

NP5/57/L557E – AIL LEOLI UNED CYFLYRU AER DI-AWDURDOD SWYDDFA NFU, LION STREET, DOLGELLAU. LL40 1DH – **Dim Gwrthwynebiad.**

NP5/57/LB389C – GOSOD SIED FFRAM BREN TÓ SERTH O FEWN CWRTIL ADEILAD RHESTREDIG GRADD 11 LION COTTAGE, LION STREET, DOLGELLAU. LL40 1DG – **Dim Gwrthwynebiad.**